# JONES, JOHN MORGAN (1873 - 1946); gweinidog gyda'r Annibynwyr a phrifathro coleg Bala-Bangor

**Enw:** John Morgan Jones
**Dyddiad geni:** 1873
**Dyddiad marw:** 1946
**Rhiant:** Mary Jones
**Rhiant:** Joseph Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr a phrifathro coleg Bala-Bangor
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg
**Awdur:** Robert Tudur Jones

Ganwyd 23 Hydref 1873 yn Albert Cottage, Cwmaman, Sir Gaerfyrddin, yn chweched plentyn ac ail fab Joseph Jones, peiriannydd, a Mary ei wraig. Wedi cyfnod o addysg yn ysgol y T   Marchnad bu'n gweithio mewn swyddfa gwaith alcam yn y cylch. Dechreuodd bregethu ym Methel Newydd, Garnant, o dan weinidogaeth y Parch. J. Towyn Jones yn 1889 ac aeth wedyn i ysgol y Gwynfryn, Rhydaman. Fe'i derbyniwyd i Goleg Coffa Aberhonddu yn 1891, a graddiodd yng ngholeg Caerdydd yn B.A. gydag anrhydedd mewn Saesneg yn 1894. Yn 1895 dechreuodd ei gwrs diwinyddol yn Aberhonddu, ond symudodd yn 1896 i goleg Mansfield, Rhydychen, gan raddio'n B.A. mewn diwinyddiaeth yn 1899. Wedi hynny bu am flwyddyn ym Mhrifysgol Berlin o dan addysg yr hanesydd eglwysig Adolf Harnack - yr athro a adawodd fwyaf o'i ddylanwad arno.

Fe'i hordeiniwyd yn 1900 yn eglwys Anniynnol Saesneg y Tabernacl, Aberdâr, a chymerodd ran amlwg ym mywyd cyhoeddus y dref yn y blynyddoedd y bu yno. Bu'n aelod Rhyddfrydol o Gyngor Aberdâr o Ebrill 1904 hyd Ebrill 1907, a lluniodd *A Scheme & Syllabus of Moral and Biblical Instruction* (Aberdâr, 1905) ar gyfer ysgolion dyddiol y dref. Yn 1902 priododd Lucy Evans o Bridgnorth a bu iddynt ddau fab a merch. Yn Ionawr 1914 symudodd i fod yn athro Hanes yr Eglwys a Llenyddiaeth Saesneg yng ngholeg Annibynnol Bala-Bangor. Gyda phrifathro 'r coleg, Dr. Thomas Rees, bu a rhan flaenllaw mewn cyhoeddi'r papur pasiffistaidd *Y Deyrnas* rhwng Hydref 1916 a Thachwedd 1919. Ar farwolaeth Thomas Rees yn 1926 daeth yn brifathro 'i goleg a daliodd y swydd nes marw ohono yntau ar 7 Mawrth 1946. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Glanadda, Bangor.

Bu ganddo ar hyd ei oes ddiddordeb mawr mewn addysg a bu'n Gadeirydd Adran Gogledd Cymru o Fudiad Addysg y Gweithwyr o 1926 hyd 1946. Yn y Brifysgol bu'n Warden Urdd y Graddedigion, 1930-33, ac yn Is-lywydd coleg y Gogledd, 1944-46. Yn ei enwad bu'n Gadeirydd Undeb Cynulleidfaol Saesneg Gogledd Cymru, 1933-4, ac yn Gadeirydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, 1939-40.

Rhoes fynegiant i'w ddiddordeb mewn pynciau cyhoeddus a'i ryddfrydiaeth ddiwinyddol mewn toreth o erthyglau a llyfrau. Cyfrannodd erthyglau o bwys i'r *Celt*; i'r *Christian Commonwealth* a'r *Geiriadur Beiblaidd*. Ceir penodau ganddo yn *Moral Instruction and Training in Schools* (gol. M. E. Sadler), 1905; ar David Rees, Llanelli, yn *Welsh Political and Educational Leaders*, 1908; ac ar Efengyl Matthew yn *The Story of the Bible*, 1938.

Bu'n olygydd *Yr Efrydydd*, Ebrill 1928-Medi 1931 a'r *Cofiadur*, 1923-46. Efe oedd golygydd *Hanes ac Egwyddorion yr Annibynwyr*, 1939.

Cyhoeddodd hefyd: (1) *Y Tadau Pererin; eu Hanes a'u Neges*, Merthyr Tydfil, 1920; (2) *Paul of Tarsus: the Apostle and His Message*, York, (d.d. ond 1916); (3) *Dysgeidiaeth Iesu Grist* a gyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr yn 1921 ac a ddiwygiwyd cyn ei ail-gyhoeddi yng Nghaerdydd yn 1937; (4) *The New Testament in Modern Education*, London, 1922; (5) (gyda G. A. Edwards) *Diwinyddiaeth yng Nghymru* (*Traethodau'r Deyrnas*), 1924; (6) *Traethodau'r Diwygiad* (*Cyfres y Werin*, Rhif 14) Wrecsam, 1926; (7) *Y Bedwaredd Efengyl* (2 gyfrol), Abertawe, 1930, 1931; (8) *Y Testament Newydd: ei hanes a'i gynnwys*, Caerdydd, 1930; (9) *Sgwrs: Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, Bangor*, (1940).

## Awdur

**Y Parchedig Brifathro Robert Tudur Jones**, (1921 - 1998)

## Ffynonellau

D. J. Williams, *Hanes Coleg Bala-Bangor* (heb ei gyhoeddi

J. E. Lloyd yn *The Congregational Year Book*, 1947, 464

*Y Dysgedydd*, 1946, 107-111

*Y Drysorfa*, 1947, t. 59-63

*Y Tyst*, Mawrth 12-28, Ebrill 11, 1946

Cofnodion Cyngor Tref Aberdâr trwy'r Parch R. Ifor Parry

gwybodaeth gan Mr. John Jenkyn Morgan, Glanaman

Mr. C. E Thomas, Bangor

Mrs. E. W. Knight Jones

a'r Parch. R. G. Owen, Bangor)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733569

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu